CYNLLUN DEWCH AM DRO
: TAFLEN WYBODAETH I ARSYLLWYR

CYFARWYDDIADAU IECHYD A DIOGELWCH

Er mwyn sicrhau bod eich ymweliad mor ddiogel a phleserus â phosibl, mae'n rhaid i chi ufuddhau i reolau penodol:

1. Gwrandewch yn ofalus a dilynwch gyfarwyddiadau eich swyddog bob amser. Mae'r swyddog yn fedrus iawn ac mae wedi cael hyfforddiant trwyadl, a bydd yn gofalu amdanoch hyd eithaf ei allu. Mae'n rhaid i chi gydymffurfio'n llwyr â'r holl gyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan yr aelod o staff rydych yn ei arsylwi.
2. Arhoswch yn y cerbyd (os yw'n berthnasol) bob amser, oni bai bod eich swyddog yn dweud wrthych yn benodol ei bod yn ddiogel i adael y cerbyd ac arsylwi rhai agweddau ar ei waith.
3. Wrth arsylwi gwaith y tu allan i'r cerbyd, cadwch bellter synhwyrol rhyngoch chi ac unrhyw aelod o'r cyhoedd. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn cynhyrfu neu'n ymddwyn yn ymosodol, ewch yn ôl i gerbyd yr heddlu ar unwaith a chlowch y drws. Bydd hyn yn galluogi'r swyddog i ddelio â'r sefyllfa heb boeni am eich diogelwch chi.
4. Peidiwch â cheisio rhoi cymorth cyntaf i unrhyw un oni bai eich bod yn gymwys i ddelio â'r anafiadau, a bod gennych yr offer amddiffyn angenrheidiol megis menig.
5. Pe byddech yn rhan o wrthdrawiad traffig ffyrdd sy'n analluogi'r swyddog, er mor annhebygol yw hynny, ceisiwch beidio â chynhyrfu. Os gallwch fynd i alw am help yn ddiogel, gwnewch hynny ar unwaith. Peidiwch â dychwelyd i'r cerbyd oni bai ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny. Ceisiwch ganfod rhywle diogel i sefyll, yn y cyffiniau, i ffwrdd o draffig sy'n dod tuag atoch ac arhoswch i'r gwasanaethau brys gyrraedd.
6. Peidiwch â chyffwrdd ag unrhyw beth mewn safleoedd o'r fath oni bai bod y swyddog sy'n gyfrifol amdanoch yn caniatáu i chi wneud hynny. Byddwch yn ofalus o ran yr hyn rydych yn cyffwrdd ag ef oherwydd gallwch ddod i gysylltiad â deunyddiau a sylweddau peryglus. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall eitemau, gan gynnwys malurion, ar safleoedd digwyddiadau o'r fath fod yn dystiolaeth werthfawr.
7. Gallwch fod mewn sefyllfa lle byddwch yn cael eich galw fel tyst i ddigwyddiad penodol, un ai gan yr amddiffyniad neu'r erlyniad.
8. Mae gan yr heddlu bwerau statudol i gael mynediad i eiddo preifat mewn amgylchiadau penodol. Os byddwch yn mynd i mewn i eiddo preifat heb ganiatâd y meddiannydd, neu'n gwrthod gadael pan fydd y meddiannydd yn gofyn i chi wneud hynny, gallwch ddod yn dresmaswr.

I'W DDARLLEN GAN Y SWYDDOG:

1. A oes unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a roddwyd gennych adeg eich cais? *
2. Pan fyddwch ar ymweliad gyda Heddlu Gwent, mae gennym oblygiadau penodol tuag at eich lles. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi am unrhyw ffactorau a allai effeithio ar yr ymweliad hwn e.e. unrhyw salwch neu anaf.
3. Yn ystod patrolau, cofiwch ddilyn fy nghyfarwyddiadau.
4. Dylech ddod o'r cerbyd (os yw'n berthnasol) os byddaf yn dweud ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny yn unig.
5. Os oes gennych unrhyw broblem ynghylch yr ymweliad, neu os bydd unrhyw broblem yn codi yn ystod yr ymweliad, rhowch wybod i mi ar unwaith.

DATGANIAD

Rwyf wedi darllen yr hysbysiad uchod ac rwy'n fodlon cadw at yr amodau.

Arsyllwr (Enw): .....

Llofnodwyd: ..... Dyddiad: / /

Swyddog (Rheng / Rhif / Enw) : .....

Llofnodwyd: ..... Dyddiad: / /

* Os oes, rhowch y manylion isod. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a ddylai'r ymweliad barhau, ymgynghorwch â goruchwyliwr.